mencap

Y Comisiwn Etholiadol

hawdd ei ddarllen

Pleidleisio drwy'r Post

Mae'r adran yma'n egluro sut i wneud cais i bleidleisio drwy'r post.

Pleidleisio drwy'r post

Bydd yr adran yma'n egluro sut i bleidleisio drwy'r post

Bydd yn egluro:

1. Beth sydd angen i chi ei wneud cyn etholiad

2. Sut i anfon eich pleidlais drwy'r post mewn etholiad



Os ydych chi am wneud cais i bleidleisio drwy'r post, gallwch gysylltu gyda'ch tîm etholiadau lleol i gael ffurflen bapur. Llenwch y ffurflen ac yna ei hanfon hi yn y post.

Gallwch chi hefyd wneud cais ar-lein er mwyn cael pleidlais drwy'r post. Er mwyn cael pleidlais drwy'r post, ewch i wefan y llywodraeth a gwneud cais drwy lawrlwytho'r ffurflen:
www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote.cy

Dim ond ar gyfer etholiadau cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, isetholiadau a deisebau adalw ac etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru y gallwch chi wneud cais ar-lein i bleidleisio drwy'r post.

Allwch chi ddim gwneud cais ar-lein ar gyfer etholiadau Senedd Cymru nac etholiadau cyngor lleol yng Nghymru.

Er mwyn dysgu sut i gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol, ewch i
www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Pleidleisio drwy'r post

Beth i'w wneud cyn yr etholiad

Bydd angen i chi wirio'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post. Gallwch ddod o hyd i'r dyddiadau cau yma: **www.electoralcommission.org.uk/cy/adnoddau/adnoddau-i-bobl-ifanc/eich-pleidlais/ways-vote/pleidleisio-drwyr-post**

Pan fyddwch chi'n llenwi eich ffurflen gais am bleidlais drwy'r post, bydd angen i chi roi:

- Eich enw
- Eich cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Am ba mor hir rydych chi am gael pleidlais drwy'r post

Gallwch chi roi tic yn y blwch er mwyn cael pleidlais bost am y cyfnod hiraf o amser, sef tair blynedd.

Os ydych chi am bleidleisio drwy'r post ar gyfer un etholiad, dylech ychwanegu dyddiad yr etholiad.



Y cyfeiriad lle rydych chi am i'r papur pleidleisio gael ei bostio iddo

Ysgrifennwch y cyfeiriad lle hoffech chi i'ch papur pleidleisio drwy'r post gael ei anfon iddo.

Os ydych chi'n gwneud cais am bleidlais drwy'r post ar gyfer mwy nag un etholiad, i'r cyfeiriad yma fydd pob pleidlais drwy'r post yn cael ei anfon yn y dyfodol.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Pleidleisio drwy'r post



Y cyfeiriad fel arfer yw eich cyfeiriad cartref, ond os ydych chi'n mynd i ffwrdd, er enghraifft ar wyliau, gallwch chi ychwanegu'r cyfeiriad lle byddwch chi'n aros.

Bydd angen i chi ddweud pam rydych chi eisiau defnyddio'r cyfeiriad yma. Gall eich tîm etholiadau lleol helpu os nad ydych yn siŵr beth i'w ysgrifennu.

Datganiad

Llenwch yr adran 'Eich dyddiad geni a datganiad'. Ysgrifennwch eich dyddiad geni a rhowch eich llofnod yn y blwch. Os nad ydych chi'n gallu llofnodi, cysylltwch â'ch tîm etholiadau lleol a byddan nhw'n gallu helpu.

Hefyd, bydd angen i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol ar gyfer:

- Etholiadau cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, isetholiadau a deisebau adalw yng Nghymru
- Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru

Yna postiwch eich ffurflen i'r cyfeiriad sy'n cael ei ddarparu.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Pleidleisio drwy’r post

Cyn yr etholiad, byddwch yn derbyn pecyn ar gyfer pleidleisio drwy’r post gyda phapur pleidleisio sy’n dangos enwau’r bobl y gallwch bleidleisio drostyn nhw. Does dim angen i chi aros tan ddiwrnod yr etholiad i lenwi eich papur pleidleisio. Gallwch lenwi eich papur pleidleisio pan fyddwch chi’n barod.

Sut i bleidleisio gan ddefnyddio eich pleidlais drwy’r post

I anfon eich papur pleidleisio yn ôl, defnyddiwch yr amlen a ddaeth gyda’r pecyn pleidleisio drwy’r post. Does dim angen stamp ar yr amlen yma.

Neu, gallwch fynd â’ch pecyn pleidleisio drwy’r post i’ch gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.

Angen help? Gallwch ddysgu mwy am bleidleisio ar wefan Mencap: **www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting**

Os oes gennych chi gwestiwn gallwch ffonio llinell gymorth etholiad Mencap: **0207 696 6009.**

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Y
Comisiwn
Etholiadol

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**